❖ Diolch am Anfon Iesu i'n Byd

Diolch i ti, ein Tad, am dymor y Nadolig a Gŵyl y Geni,
pan gofiwn ac y diolchwn am y Baban Iesu:
er nad oedd ond llety'r anifail yn gysgod i Mair a Joseff;
er nad oedd i'r Baban ond preseb anifail yn grud;
diolch i ti am anfon Iesu i'n byd:
Derbyn ein diolch, nefol Dad.

Am gân yr angylion uwch meysydd Bethlehem:
'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd';
am y bugeiliaid yn gwylio eu praidd liw nos,
a aethant ar frys i weld y Baban:
Derbyn ein diolch, nefol Dad.

Am y doethion a ddaeth o'r dwyrain
â'u hanrhegion o aur a thus a myrr;
am y seren ddisglair a dywynnodd yn y ffurfafen,
ac a arhosodd uwchlaw'r lle'r oedd y Baban Iesu:
Derbyn ein diolch, nefol Dad.

Plygwn ninnau gyda'r doethion o'r dwyrain,
gyda'r bugeiliaid o'r meysydd,
yn sŵn cân yr angylion,
ac yng ngoleuni'r seren lachar,
i addoli Crist o'r nef:
Derbyn ein diolch, nefol Dad.

Derbyn di, O Dduw,
ein bywydau, ein talentau, ein hamser,
y cyfan a feddwn, fel y gallwn heddiw
dystiolaethu amdano a'i addoli,
nid ar ŵyl y Nadolig yn unig,
ond bob dydd o'r flwyddyn.

Gwyneth Davies

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com